# Rhaglen Gwyliau'r Haf 2026



Rydym ni'n falch iawn o gyhoeddi rhaglen **Ysgol Haf Rubicon Dance** ar gyfer 2026. Rydym ni'n credu y dylai pawb gael y cyfle i ddawnsio felly mae ein rhaglen yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer pobl o wahanol oedrannau a galluoedd – **edrychwch ar yr holl grwpiau ar y tudalennau canlynol**.

Byddwn ni'n eich helpu chi i ddatgloi eich hunanfynegiant, darganfod eich potensial, cael eich ysbrydoli a bod gennych chi gysylltiad â'r byd drwy hud dawns. Bydd rhai o'n grwpiau haf hefyd yn cael y cyfle i berfformio mewn digwyddiadau cymunedol lleol ochr yn ochr â sefydliadau partner eraill.

I **archebu eich lle** cyn gynted â phosibl, neu i ofyn unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at **info@rubicondance.co.uk** neu ffoniwch **029 2049 1477**.

# Rhaglen Gwyliau'r Haf 2026

## Cynnwys


**Plant 7 i 11 oed** tudalen 3

- symudiad, creadigrwydd a llawenydd

**Pobl ifanc 12 i 18 oed** tudalen 4

- archwilio a chreu

**Dawns i Oedolion Hŷn** tudalen 5

- sesiynau blasu mewn gwahanol arddulliau dawns

**Twmpath** tudalen 6

- dawns werin draddodiadol Gymreig

**Nu Wave yng Ngharnifal Butetown** tudalen 7

**Prisiau** tudalen 8

**Cyfleoedd Gwirfoddoli** tudalen 9

- helpwch gefnogi ein gweithgareddau

**Calendr** tudalen 10

# Dawns i blant 7 i 11 oed

**Symudiad, creadigrwydd a llawenydd**



Byddwn ni'n treulio'r pum sesiwn hyn yn darganfod dawns drwy siarad, gwylio a chymryd rhan - ac yn cyfuno'r hyn rydym ni wedi'i ddysgu drwy dreulio ein prynhawniau yn creu darn dawns cydweithredol newydd a chyffrous. Bydd cyfranogwyr yn derbyn tystysgrif i ddathlu eu cyflawniad. Bydd teuluoedd yn cael eu gwahodd i'n gwylio ni'n perfformio ar ddiwedd yr wythnos.

**Dyddiadau ac amseroedd:** Dydd Llun 3 Awst i Ddydd Gwener 7 Awst – 9:30am i 3:30pm

# Archwilio a Chreu i Bobl Ifanc 12 i 18 oed

**Archwilio amrywiaeth o wahanol arddulliau dawns a chreu darn perfformio newydd i'w gyflwyno mewn digwyddiadau cymunedol lleol.**

Cymerwch ran mewn dosbarthiadau bob bore i ddatblygu technegau gwahanol sy'n dangos ehangder ac amrywiaeth dawns.

Yna, yn y prynhawn, byddwn ni'n creu darn perfformio newydd a fydd yn cael ei gyflwyno mewn digwyddiadau cymunedol lleol – manylion i ddilyn.

Bydd hwn yn gyfle cyffrous i arddangos y perfformiad y rydym ni wedi'i greu i'r cyhoedd, ac i fod yn rhan o ddiwrnod llawn gweithgareddau a pherfformiadau eraill.



**Cyfle gwych i unrhyw un sy'n ystyried dilyn dawns yn rhan o'u dyfodol!**

**Dyddiadau ac amseroedd:**

Wythnos Weithgareddau
Dydd Llun 20 Gorffennaf i Ddydd Iau 23 Gorffennaf – 10:00am i 4:00pm

Ymarfer
Dydd Gwener 28 Awst – 3:30pm i 5:00pm

Diwrnod/au Perfformio
Dydd Sadwrn 29 Awst a Dydd Sul 30 Awst – manylion i ddilyn

**Noder: Rhaid i gyfranogwyr fod ar gael ar gyfer pob dyddiad a restrir**

# Dawns i Oedolion Hŷn

**Mwynhewch gan roi cynnig ar amrywiaeth o wahanol arddulliau dawns!**



Mae ein rhaglen haf i oedolion hŷn yn gyfle i roi cynnig ar rywbeth ychydig yn wahanol. Byddwn ni'n cynnal dau ddiwrnod ar wahân gyda sesiynau blasu mewn gwahanol arddulliau dawns.

Bydd y bore'n fywiog ac yn llawn hwyl, tra bydd y prynhawn ychydig yn fwy hamddenol, gyda digon o amser hefyd i sgwrsio a chymdeithasu.

**Dyddiadau ac amseroedd**

| | |
|---|---|
| Diwrnod Blasu 1 | Dydd Iau 30 Gorffennaf – 10:30am i 2:30pm |
| Diwrnod Blasu 2 | Dydd Iau 6 Awst – 10:30am i 2:30pm |

**Noder: Mae'r sesiynau hyn wedi'u hanelu at gyfranogwyr 55 oed a hŷn**

# Twmpath

**Digwyddiad dawns werin draddodiadol Gymreig ar gyfer pob oedran a gallu**



Yn dychwelyd ar ôl galw poblogaidd, Twmpath traddodiadol Cymreig! Mae Twmpath yn ddigwyddiad dawns werin draddodiadol Gymreig, tebyg i ceilidh. Nid oes angen unrhyw brofiad, bydd ein cerddorion byw yn galw'r holl gyfarwyddiadau ar gyfer y dawnsfeydd. Gallwch chi ddisgwyl llawer o chwerthin a gwenu!

### Dyddiad ac amser

Dydd Sul 2 Awst – 3:00pm – 4:30pm

# Perfformiad: Nu Wave yng Ngharnifal Butetown

**Gwyliwch ein grŵp perfformio bywiog i oedolion hŷn yn perfformio!**



Bydd Nu Wave, grŵp perfformio bywiog Rubicon ar gyfer oedolion 50 oed a hŷn, yn camu i'r llwyfan yng Ngharnifal Butetown eleni gyda'u hegni a'u hysbryd nodweddiadol. Yn adnabyddus am eu hymrwymiad, eu creadigrwydd a'u cariad at symudiad, mae'r grŵp yn dod â dawnswyr o bob lefel profiad ynghyd i ddathlu cymuned drwy berfformio. Mae eu hymddangosiad yn y Carnifal yn addo coreograffi ysbrydoledig, mynegiant llawen ac yn ein hatgoffa bod dawns yn perthyn i bob corff, ar bob oedran.

**Dyddiad ac amser**

<u>Dydd Sul 30 Awst</u>

<u>Dechrau'r Orymdaith</u>

12:00, Sgwâr Loudoun, Stryd Bute, Caerdydd

<u>Perfformiad</u>

Prynhawn (amser i'w gadarnhau), ger Adeilad y Pierhead.
Os hoffech chi gael gwybod pan fydd amser y perfformiad wedi'i gadarnhau, cysylltwch â **info@rubicondance.co.uk** neu ffoniwch **029 2049 1477**.

# Prisiau

Fel elusen, mae Rubicon yn credu bod pawb yn haeddu'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd dawns creadigol a llawen, beth bynnag fo'u hanghenion mynediad neu eu cefndir ariannol. Am y rheswm hwnnw, **mae holl weithgareddau ein rhaglen haf ar sail 'Talwch Beth y Gallwch'. Mae hyn yn golygu bod pris safonol wedi'i awgrymu, ond rydym ni'n eich gwahodd chi i dalu cyn lleied (neu gymaint!) ag y gallwch chi.** Felly, os na allwch chi fforddio'r pris safonol, mae dal croeso i chi fynychu. Rhowch wybod i ni faint yr hoffech chi ei gyfrannu os allwch chi wneud hynny.

Os hoffech chi fynd gam ymhellach a chyfrannu mwy tuag at waith Rubicon, mae gennym ni hefyd lefel pris 'talu ymlaen'. Mae archebu eich lle ar y lefel hon yn helpu i sicrhau y gallwn ni barhau i wneud dawns yn hygyrch ac ar gael i bawb, beth bynnag fo'u cefndir.

I **archebu eich lle** cyn gynted â phosibl, neu i ofyn unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at **info@rubicondance.co.uk** neu ffoniwch **029 2049 1477**.

| Gweithgaredd | Lefelau Prisio | |
|---|---|---|
| **Dawns i Blant 7-11 oed** | Safonol | £37.50 |
| | Talu ymlaen | £75.00 |
| **Archwilio a Chreu i Bobl Ifanc 12 - 18 oed** | Safonol | £50.00 |
| | Talu ymlaen | £100.00 |
| **Dawns i Oedolion Hŷn** | Safonol (y dydd) | £10.00 |
| | Talu ymlaen (y dydd) | £20.00 |
| **Twmpath** | Safonol | £10.00 |
| | Talu ymlaen | £20.00 |

# Cyfleoedd Gwirfoddoli

**Helpwch gefnogi ein gweithgareddau yn ystod Rhaglen Gwyliau'r Haf 2026**

Rydym ni'n chwilio am ychydig o bobl i ymuno â ni fel gwirfoddolwyr i gefnogi gweithgareddau ein Rhaglen Haf. Gall tasgau gynnwys cymryd rhan mewn sesiynau, helpu gyda gweinyddiaeth a logisteg, dysgu gan ein Harweinwyr Dawns profiadol a gweithredu fel modelau rôl i'r cyfranogwyr iau.

Mae llawer o resymau gwych dros wirfoddoli, gan gynnwys:

- Datblygu sgiliau newydd a magu hyder
- Cwrdd â phobl newydd
- Rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â ni yn **info@rubicondance.co.uk** neu ffoniwch **029 2049 1477**.

RUBICON DANCE

# Calendr Rhaglen Gwyliau'r Haf 2026

| 20 Gorffennaf i 26 Gorffennaf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llu | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
| **Archwilio a Chreu – Bobl Ifanc 12 i 18 oed** 10:00am – 4:00pm | | | | | Twmpath | |

| 27 Gorffennaf i 9 Awst | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llu | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sun |
| | | | **Oedolion Hŷn** 10:30am – 2:30pm | | | **Twmpath** 3:00pm – 4:30pm |

| 3 Awst i 9 Awst | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llu | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
| **Dawns i Blant 7 i 11 oed** 9:30am – 3:30pm | | | | | | |
| | | | **Oedolion Hŷn** 10:30am – 2:30pm | | | |

| 10 Awst i 23 Awst | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llu | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
| **Egwyl** | | | | | | |

| 24 Awst i 30 Awst | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llu | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
| | | | | **Pobl Ifanc 12 i 18** 3:30pm i 5:00pm | **Pobl Ifanc 12 i 18** Amser y perfformiad i'w gadarnhau | **Pobl Ifanc 12 i 18** Amser y perfformiad i'w gadarnhau |
| | | | | | | **NuWave** Amser y perfformiad i'w gadarnhau |